**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 29 Tachwedd 2017

**Aelodau / Swyddogion Arweiniol:** Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts a Julian Thompson-Hill / Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant /Richard Weigh, Pennaeth Cyllid

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh a Karen Evans

**Teitl:** **Fframwaith Herio ac Ymyrryd ar gyfer Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Proses y cyngor ar gyfer gweithio gydag ysgolion sydd mewn trafferthion ariannol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Egluro proses a dull gweithredu'r cyngor wrth weithio gydag ysgolion sydd mewn trafferthion ariannol. Mae'r polisi yn dilyn nifer o gamau uwchgyfeirio, ac mae un o'r rheiny'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a llywodraethwyr unigol adrodd yn ôl i bwyllgor llywodraethu corfforaethol y cyngor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi a gwneud sylwadau ar fframwaith ysgolion mewn trafferthion ariannol y cyngor (manylir yn Atodiad 1), sy'n cynnwys cam uwchgyfeirio i ysgolion adrodd i'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol.

**4. Manylion yr adroddiad**

Caiff rheolaeth a'r cyfrifoldeb dros gyllidebau ysgolion ei ddirprwyo i gyrff llywodraethu unigol ysgolion. Mae'r darpariaethau deddfwriaethol o fewn Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, 1998 a Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. Mae'r ddwy ddeddfwriaeth yn ategu Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion y cyngor (Atodiad 2). Mae'r cyngor yn pennu cyfanswm cyllideb yr ysgol – cyn grantiau allanol - yn flynyddol ac yna'n dirprwyo'r rhan fwyaf o hyn (oddeutu 85%) i ysgolion drwy fformiwla y cytunwyd arno. Mae'r gweddill yn cael ei reoli'n ganolog ar ran ysgolion i ariannu eitemau fel cludiant ysgol a chostau canolog eraill.

Caiff y gefnogaeth rheolaeth ariannol i ysgolion ei ddirprwyo i'r ysgolion drwy reolwyr busnes a rheolaeth penodol. O dan y Cynllun uchod, mae'n ofynnol i bob ysgol gyflwyno cynllun cyllideb tair blynedd i'r cyngor bob blwyddyn. Rhaid i gynlluniau cyllideb ddangos bwriadau'r ysgol ar gyfer gwariant yn y 3 blynedd ariannol nesaf a'r tybiaethau sy'n sail i'r cynllun cyllideb hwnnw. Mae ysgolion yn gyfrifol am reoli arian dros ben neu ddiffyg dros y cyfnod.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys darpariaeth i drwyddedu sefyllfa ddiffyg ar gyfer ac i gefnogi hyn, mae'r cyngor wedi datblygu fframwaith herio ac ymyrryd mwy manwl.

Mae’r fframwaith wedi ei atodi yn Atodiad 1 ac mae'n cael ei grynhoi orau yn y siart llif ar Dudalen 3 yr atodiad.

Mae camau uwchgyfeirio yn cael eu nodi’n glir, gan orffen ar yr wythfed sy’n cynnwys atgyfeiriad at y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Y cam olaf yn y pen draw fyddai i’r cyngor arfer pwerau i ddileu’r pwerau a ddirprwywyd i’r ysgol.

O ran cyd-destun, o 2011/12 hyd at ddiwedd 2016/17, cafodd cynghorau gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i warchod cyllidebau ysgolion yn ariannol o swm 1% uwchben y lefel o grant ariannol gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru. Dewisodd Sir Ddinbych ddarparu mwy o gyllid i ysgolion dros y cyfnod hwn, gan ddarparu cyfanswm o 70% yn fwy i ysgolion nag a fyddai wedi ei gyfrannu drwy ddefnyddio’r peirianwaith angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru yn unig. Roedd gwerth ariannol dulliau diogelu Llywodraeth Cymru i ysgolion Sir Ddinbych yn £4.422 miliwn dros 6 mlynedd o 2011/12 hyd at 2016/17 yn gymaint â bod cyllidebau ysgolion Sir Ddinbych wedi codi o £7.519 miliwn dros yr un cyfnod.

Roedd balansau ysgolion ar y lefelau uchaf erioed o £3.9 miliwn yn 2013 – 14, cyn cwympo yn gyson ers hynny. Hyd yn oed gyda darpariaeth cyllid ychwanegol lleol (uwchben y cyfanswm oedd ei angen), nid yw wedi bod yn ddigon i ddal fyny gyda’r holl bwysau ariannol sydd wedi ei osod ar ysgolion. Mae’r codiadau cyflog a’r cynnydd mewn costau Yswiriant Cenedlaethol a phensiynau yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn arbennig o anodd i'r sector, yn arbennig yn 2016/17. Roedd y pwysau'n cael ei adlewyrchu yn y rhagdybiaethau cyllideb tymor canolig a gyhoeddwyd i ysgolion.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae’r broses archwilio allanol flynyddol yn ategu stiwardiaeth ariannol a threfn lywodraethol y Cyngor ac felly yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

**Barn broffesiynol y Pennaeth Addysg a'r Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn, gan mai adrodd am fframwaith presennol i bwyllgor archwilio’r cyngor sy’n cael ei wneud.**

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd ag ysgolion ar y Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion a'r fframwaith ar gyfer Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol. Mae’r Fforwm Cyllidebau Ysgolion yn cadw’r ddau o dan adolygiad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**Mae natur a graddfa’r ddirprwyaeth i ysgolion yn dod gyda chyfrifoldeb i reoli’r sefyllfa ariannol. Derbynnir y bydd arian dros ben a diffygion o fewn y fframwaith hwn. Cyfrifoldeb yr ysgolion yw sicrhau fod arian dros ben yn cael ei reoli’n gyfrifol a'u bod yn mynd i'r afael â diffygion dros gyfnod rhesymol. Peirianwaith y Cyngor yw'r fframwaith ar gyfer Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol er mwyn**

**sicrhau fod hyn yn digwydd ac sy’n cynnwys sancsiynau os nad ydy hyn yn digwydd.**

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae’r Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion a'r fframwaith ar gyfer Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol yn cael eu nodi yn null gweithredu a rheolyddion y cyngor er mwyn sicrhau fod cyllidebau ysgolion wedi’i dirprwyo yn cael eu rheoli’n bwrpasol.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, 1998 a Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010
Adran 151 o Deddf Llywodraeth Leol 1972.